| **Dyddiad y cyfarfod** | 9 Mehefin 2023 |
| **Aelod Arweiniol** | Y Cynghorydd Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Lisa Jones, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |
| **Awdur yr adroddiad** | Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| **Teitl** | Adolygiadau Datblygiad Personol |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn egluro cefndir adolygiadau datblygiad personol ar gyfer aelodau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi gwybodaeth i'r pwyllgor am adolygiadau datblygiad personol a cheisio adborth gan y pwyllgor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn gwneud sylwadau neu argymhellion priodol o ran y broses adolygu datblygiad personol.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn mynnu bod Adolygiadau Datblygiad Personol (ADP) ar gael i bob cynghorydd. Mae ADP yn ffordd i aelodau a'r Cyngor asesu anghenion datblygu personol aelod gyda'i gilydd. Byddai'r adolygiad wedi'i osod yng nghyd-destun rôl yr aelod, eu dyheadau ar gyfer yr hyn y maen nhw'n gobeithio ei gyflawni, disgwyliadau'r Awdurdod ac anghenion y gymuned. Gallai'r

cyfweliad gynnwys adolygiad o’r hyfforddiant a’r datblygiad a gafodd yr aelod dros y flwyddyn flaenorol.

4.2. Dylid nodi nad yw ADP yn Arfarniad o Berfformiad; ond yn fodd o gefnogi a datblygu aelodau. Nid oes gorfodaeth ar aelodau i gael ADP.

4.3. Gall unrhyw aelod sy'n dewis cael ADP wneud cais i'w arweinydd grŵp neu swyddog o'r Gwasanaethau Democrataidd gynnal y cyfweliad.

4.4. Mae gwybodaeth am y broses ADP a thempled cynllun datblygu personol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Yn anuniongyrchol, gallai’r broses adolygu datblygiad personol lywio cyfraniadau aelodau i’r Cynllun Corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Caiff y broses adolygu datblygiad personol ei chefnogi gan y tîm Gwasanaethau Democrataidd. Efallai y bydd angen cyfraniadau gan wasanaethau eraill neu asiantaethau allanol, fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ar gyfer gweithgareddau hyfforddiant a datblygu a nodwyd gan y broses. Mae'r costau'n debygol o ymwneud ag amser swyddogion.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o’r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Y fforwm priodol ar gyfer ymgynghori ar y broses adolygu datblygiad personol yw'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oedd angen datganiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 10. Beth yw’r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae'r broses adolygu datblygiad personol wedi'i chynllunio i hyrwyddo datblygiad parhaus ar gyfer aelodau, a ddylai leihau unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig ag aelodau yn cyflawni eu swyddogaethau.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad?

11.1. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Adolygiadau Datblygiad Personol

Mae Adolygiad Datblygiad Personol (ADP) yn ffordd i aelod a'i Awdurdod asesu anghenion datblygiad personol aelod o'r naill ochr. Dylai'r adolygiad gael ei osod o fewn cyd-destun rôl yr aelod, eu dyheadau am beth maent yn gobeithio ei gyflawni, pwrpas a dyheadau'r Awdurdod ac anghenion y gymuned. Gallai'r cyfweliad cynnwys adolygiad o'r hyfforddiant a datblygiad a gafodd yr aelod. **NID** Gwerthusiad o Berfformiad yw ADP ond yn hytrach mae'n fodd o gefnogi a datblygu aelodau.

Mae cynlluniau ADP yn galluogi aelodau i fagu hyder, datblygu sgiliau a gwybodaeth a gwella eu perfformiad eu hunain a'u cyfraniad at y cyngor a'r gymuned. Gallant ddarparu:

- Eglurder i aelodau am y disgwyliadau a'r atebolrwydd sydd arnynt.
- Dealltwriaeth o, a chefnogaeth ar gyfer anghenion datblygu unigol aelodau ac ar y cyd
- Cefnogaeth i aelodau wrth baratoi ar gyfer rolau newydd (cynllunio olyniaeth)
- Dealltwriaeth a pherchnogaeth o nodau sefydliadol
- Cefnogaeth i wella perfformiad aelodau
- Cynllun wedi'i gytuno sy'n nodi anghenion hyfforddiant a datblygu, os oes rhai, ar gyfer y flwyddyn i ddod
- Cofnod ysgrifenedig, wedi'i lofnodi gan yr aelod a'r adolygwr
- Dogfen breifat na ddisgwylir iddi gael ei chyhoeddi gan yr awdurdod na'r aelod, er bod yr aelod yn rhydd i gyhoeddi yn ei adroddiad blynyddol unrhyw hyfforddiant a datblygiad a gyflawnwyd os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

### Canllawiau i Aelodau yn cael eu cyfweld

Cyn cynnal eich adolygiad efallai bydd yn ddefnyddiol i ystyried y canllawiau canlynol:

### Pwrpas yr Adolygiad

Pwrpas eich cyfarfod fydd darparu cyfle i adolygu eich rôl yn gyffredinol, ystyried unrhyw dasgau penodol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, ystyried y meysydd lle rydych yn teimlo'n hyderus a nodi meysydd a allai fod yn heriol ac a allai fod angen cefnogaeth a datblygiad. Byddwch yn cael cyfle i nodi anghenion dysgu a datblygu y byddwch wedyn yn gallu adrodd yn ôl i swyddogion Gwasanaethau Democrataidd i drefnu rhaglenni datblygu.

### Paratoi

Cyn eich cyfarfod bydd angen i chi lenwi'r Cynllun Datblygu Personol (PDP). Bydd hwn yn eich helpu i feddwl am eich rôl, tasgau penodol am y flwyddyn hon ac unrhyw gymorth y gallech fod ei angen. Bydd hefyd yn ddefnyddiol i chi adolygu'r disgrifiadau swydd yn Adran 19 o Gyfansoddiad y Cyngor.

Cysylltwch â'ch cyfwelydd a chynllunio amser a lle sy'n gyfleus i'r ddau ohonoch, lle gallwch gael sgwrs gyfrinachol heb neb yn tarfu arnoch.

**Cynnal yr Adolygiad**

Cofiwch fod angen i’r sgwrs rhyngoch chi â’ch cyfwelydd yn gyfrinachol.

Defnyddiwch y Ffurflen ADP fel sail ar gyfer eich trafodaethau

Bydd eich cyfwelydd yn eich helpu i ystyried eich rôl/cyfraniad, cryfderau/gwendidau ac anghenion hyfforddi. Byddant yn gweithredu fel seinfwrdd amcanol yn y sgwrs hon.

Nid yw’n rhan o’u gwaith i roi eu hadborth eu hunain ar eich perfformiad.

Nodwch mai eich cyfrifoldeb chi yw ymgymryd ag unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o'r sgwrs, cadw unrhyw ddogfennau a thrafod unrhyw anghenion datblygu sy'n dod i'r amlwg gyda swyddogion Gwasanaethau Democrataidd.

Gellir hefyd dod o hyd i unrhyw gefnogaeth ychwanegol sydd ei angen oddi wrth yr awdurdod a’u bwydo i mewn i'r sefydliad fel bo'n briodol.

Atodiad 2

## CYNLLUN DATBLYGU PERSONOL AELODAU

Cwblhewch y pro forma hwn a dewch ag o gyda chi i'ch sesiwn adolygu datblygiad personol. Mae'r ffurflen hon yn gyfrinachol i chi a'r unigolyn sy'n cynnal eich Adolygiad, ac eithrio'r ddalen olaf a fydd yn cael ei defnyddio gan swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd.

| **Enw:** | | **Enw'r Adolygydd:** | |
|---|---|---|---|

**1. Beth yw fy swyddogaethau a'm cyfrifoldebau ar hyn o bryd?** *(e.e. aelod Cabinet neu Graffu, cadeirydd neu aelod o bwyllgor fel Llywodraethu Corfforaethol, Cynllunio neu Drwyddedu neu baneli neu fyrddau eraill. Gallwch roi swyddogaethau cynrychioli Cymuned neu arwain yma hefyd).*

| | |
|---|---|
| 1 | |
| 2 | |
| 3 | |
| 4 | |
| 5 | |

**2. Beth sydd angen i mi wybod amdano a gallu ei wneud er mwyn ymgymryd â'm swyddogaethau'n effeithiol?** *(Gweler y disgrifiadau swydd yn Adran 19 o Gyfansoddiad y Cyngor)*

**3. Ym mha agweddau o'm swyddogaeth(au) presennol neu rai posibl yn y dyfodol ydw i'n hyderus?**

**4. Ym mhle ydw i'n llai hyderus neu angen datblygu ymhellach?**

| |
|---|
| |



**5. Beth a allai fy atal rhag ymgymryd â'm swyddogaethau yn effeithiol?** *(Ystyriwch unrhyw faterion personol, sefydliadol neu wleidyddol a allai atal llwyddo)*

| |
|---|
| |

| **Meysydd yr hoffwn ni eu datblygu neu ddysgu mwy amdanynt:** | **Dull dewisol o ddysgu neu ddatblygu** *(e.e. e-ddysgu, darllen deunydd gartref, ymweld ag awdurdodau lleol eraill, mentora neu rwydweithio, hyfforddiant ar sail 'ystafell ddosbarth' neu weithdai ymarferol, ac ati)* |
| --- | --- |
| **Sgiliau** *(e.e. Sgiliau cadeirio neu holi, ymddygiad effeithiol mewn cyfarfodydd, cyfryngau cymdeithasol, sgiliau TG, siarad yn gyhoeddus, sgiliau trefniadol, cadernid a gwytnwch meddyliol, ac ati)* | |
| **Gwybodaeth** *(e.e. y cod ymddygiad, arian llywodraeth leol, cydraddoldeb, y broses gynllunio, y fframwaith polisi, trefniadau llywodraethu a phenderfynu Sir Ddinbych.)* | |

MAE’R DUDALEN HON YN WAG O FWRIAD

*Dylid tynnu'r ddalen hon yn rhydd a'i gyrru at y Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Rhuthun – e-bost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk. Bydd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu cynlluniau datblygu a rhaglenni hyfforddi cyffredinol a phersonol*

**Cynllun Dysgu a Datblygu ar gyfer ________________________** *(nodwch y flwyddyn)***.**

| **Maes Dysgu neu Ddatblygu** | **Dull o Ddarparu'r Dysgu a'r Datblygu** | **Blaenoriaeth / amserlen** *(e.e. blaenoriaeth 1$^{af}$ erbyn Tach 202X)* |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

Tudalen 36

**Llofnod yr Aelod:** ________________________________________ **Dyddiad:** ___________________________

**Llofnod yr Adolygydd:** ________________________________________ **Dyddiad:** ___________________________

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 9 Mehefin 2023 |
| **Aelod Arweiniol** | Y Cynghorydd Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Lisa Jones, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |
| **Awdur yr adroddiad** | Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| **Teitl** | Polisi'r Cyngor ar Hyfforddiant Aelodau |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth ar faterion hyfforddiant a datblygiad aelodau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cael barn ac argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, cyn ystyried hyfforddiant i aelodau gan y Cyngor llawn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn:

3.1. Nodi'r adroddiad ac amlygu pynciau hyfforddiant i aelodau i'w trafod yn y dyfodol.

3.2. Gwneud argymhellion priodol i'r Cyngor llawn ar ofynion hyfforddiant gorfodol i aelodau.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# 4. Manylion yr adroddiad

## Cyflwyniad

4.1. Bu i raglen o ymsefydlu, hyfforddiant a datblygu i aelodau ddechrau yn syth ar ôl etholiadau'r Cyngor ym Mai 2022. Mae'r sesiynau a gyflwynwyd fel rhan o'r ymsefydlu cychwynnol i aelodau newydd a'r rhai oedd yn dychwelyd, yn cynnwys hyfforddiant ar God Ymddygiad y Cyngor, darpariaeth TGCh aelodau, ymgyfarwyddo â gwasanaethau, cydraddoldeb ac amrywiaeth, diogelu a chyflwyniad i Graffu. Darparwyd hyfforddiant hefyd i gyflawni swyddogaethau penodol fel aelodau (er enghraifft, i aelodau o'r Pwyllgorau Cynllunio neu Lywodraethu ac Archwilio, a gweithredu fel 'rhiant corfforaethol'). Mae cyfleoedd hyfforddi wedi parhau gyda sesiynau ar gyfer aelodau o'r pwyllgor trwyddedu, ail-ymweld â Chraffu a Rheoli Trysorlys.

4.2. Mae'r gweithdai rheolaidd i bob aelod o'r Cyngor wedi bod yn fforwm ar gyfer hyfforddiant a rhannu gwybodaeth ar amrywiaeth o bynciau megis newid hinsawdd a materion ecolegol; proses gosod cyllideb y Cyngor; strwythur gweithredol y Cyngor; a gwaith gwasanaethau cyhoeddus rhanbarthol strategol. Cynllunnir mwy o Weithdai Cyngor.

4.3. Mae adrannau unigol o'r Cyngor yn darparu hyfforddiant yn rheolaidd i aelodau mewn amrywiol ffurfiau ar y gwasanaethau a ddarparant. Yr hyfforddiant a ddarperir gan swyddogion ac adrannau'r Cyngor yw rhan helaethaf yr hyfforddiant i aelodau, er y defnyddir hyfforddiant a hwyluswyr allanol hefyd pan fo'n briodol.

## E-Ddysgu

4.4. Mae datblygiad adnoddau e-ddysgu ar gyfer aelodau wedi ei gydlynu'n genedlaethol gan Rwydwaith Swyddogion Cefnogi Aelodau, ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC); ac mae llwyfan e-ddysgu cenedlaethol i aelodau bellach ar gael.

4.5. Dosbarthwyd canllaw ddrafft ar ddilyn y modiwlau e-ddysgu i aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ym Mawrth 2023, ar gyfer gwirio ymarferoldeb y Ganllaw a'r safle e-ddysgu. Mae'r Ganllaw ddrafft ynghlwm yn atodiad 1.

## Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

4.6. Mae CLlLC yn darparu amrywiaeth o gefnogaeth i aelodau gan gynnwys deunyddiau canllaw a rhaglenni hyfforddiant. Yn flaenorol mae'r Cyngor wedi gweithio gyda CLlLC yn arbennig ar hyfforddiant ar swyddogaethau Craffu a Chabinet, er enghraifft gyda sesiynau sgiliau cadeirio a chwestiynu Craffu. Mae'r Cyngor hefyd yn cymryd rhan yn 'Rhaglen Arweinyddiaeth i Gynghorwyr CLlLC', ar y cyd ag Academi Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae'r Rhaglen Arweinyddiaeth ar gyfer cynghorwyr mewn swyddi arweinyddiaeth, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt o ran arweinyddiaeth wleidyddol a'r wybodaeth a'r sgiliau maent eu hangen i wneud eu swyddi. Pan fo gan CLlLC yr arbenigedd, bydd hefyd yn ystyried ceisiadau am hyfforddiant pwrpasol.

## Aelodau Cyfetholedig

4.7. Mae aelod cyfetholedig neu aelod lleyg yn rhywun nad ydynt yn gynghorydd (nad ydynt wedi eu hethol i'r Cyngor), ond yn unol â gofynion statudol, maent yn eistedd ar un o bwyllgorau'r Cyngor. Mae gan y Cyngor aelodau cyfetholedig ar y tri phwyllgor craffu ar gyfer busnes addysg; ar y Pwyllgor Safonau; ac ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'n ofyniad cyfreithiol i gadeiryddion y Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio a Safonau fod yn aelodau lleyg.

4.8. Yn ddiweddar mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu'r Cyngor wedi gofyn i aelodau cyfetholedig Craffu Addysg a Llywodraethu ac Archwilio gael eu gwahodd i ddigwyddiadau hyfforddiant Craffu. Bu i aelodau cyfetholedig Craffu a Llywodraethu ac Archwilio fynychu'r sesiwn hyfforddiant 'Ail-ymweld â Chraffu' gyda chynghorwyr yn Ebrill 2023, a threfnwyd hyfforddiant craffu pellach ar Sgiliau Cadeirio Craffu; Sgiliau Cwestiynu Craffu; a Chraffu Effeithiol ar gyfer Gwell Canlyniadau.

## Hyfforddiant Gorfodol a Dewisol

4.9. Gall y Cyngor benderfynu dewis hyfforddiant penodol i fod yn orfodol i holl aelodau, neu i aelodau sy'n gwneud swyddogaethau penodol. Mae mynychu o leiaf un sesiwn hyfforddiant ar God Ymddygiad Aelodau yn ystod bob tymor llawn yn hanfodol, gan fod y gofyniad wedi ei gynnwys yn y Cod Ymddygiad Aelodau. Mae gan y Cyngor hyfforddiant gorfodol i aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio trwy gytuno i'r egwyddor o aelodau'r pwyllgor ond yn pleidleisio ar faterion cynllunio os ydynt wedi cwblhau

hyfforddiant cynllunio diweddar, digonol. Mae dau sesiwn hyfforddiant cynllunio o fewn cyfnod o 12 mis.

4.10. I alluogi aelodau i gyflawni eu rhwymedigaethau, byddai angen cynnig unrhyw hyfforddiant gorfodol ar amseroedd priodol, a dros gyfnod realistig. Nid yw'r trefniadau polisi rheolwr atebol a hyfforddiant i staff yn briodol at gyfer aelodau gan eu bod yn ddeiliaid swydd wedi eu hethol yn hytrach na gweithwyr. Fodd bynnag, gallai'r Cyngor benderfynu gorfodi polisi hyfforddiant gorfodol i aelodau, er enghraifft trwy:

- Darparu cofnodion hyfforddiant i'r arweinwyr grŵp
- Adrodd ar gofnodion hyfforddiant gorfodol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Cyhoeddi presenoldeb mewn hyfforddiant a diffyg cydymffurfio â gofynion gorfodol
- Grwpiau yn ystyried materion hyfforddiant wrth ddyrannu swyddogaethau i'w haelodau.

4.11. Yn 2018 penderfynodd y Cyngor blaenorol y byddai'r cyrsiau hyfforddiant canlynol yn orfodol:

- Y Cod Ymddygiad - unwaith y tymor.
- Cynllunio - dau ddigwyddiad hyfforddi bob blwyddyn (ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio).
- Trwyddedu - dau ddigwyddiad hyfforddi bob blwyddyn (ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu).
- Diogelu'r Cyhoedd a GDPR - hyfforddiant blynyddol ond diwygiwyd i unwaith y tymor
- Cyllid Llywodraeth Leol - unwaith y tymor
- Diogelu - unwaith y tymor
- Rhianta Corfforaethol – unwaith y tymor.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Nid yw’r adroddiad hwn yn cyfrannu’n uniongyrchol at y Blaenoriaethau Corfforaethol, ond bydd aelodau etholedig sydd wedi’u hyfforddi ac yn cael cymorth priodol yn cyfrannu at berfformiad y Cyngor ym meysydd strategaeth, datblygu polisïau a gwneud penderfyniadau.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Darperir y mwyafrif o’r cynllun hyfforddi gan swyddogion y Cyngor. Nid yw hyn yn gofyn am arian ychwanegol ond mae yn gofyn am amser swyddogion ac mae hynny’n ffactor ym maint a chymhlethdod y rhaglen hyfforddi y gellir ei darparu. Mae angen hwyluso rhai meysydd hyfforddiant yn allanol gyda chostau’r hyfforddiant hwn yn dod o’r gyllideb hyfforddiant aelodau.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad o’r effaith ar les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Adroddir ar faterion hyfforddi a datblygu aelodau i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a’r Cyngor llawn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes angen datganiad gan y Prif Swyddog Cyllid ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nod hyfforddiant a datblygiad yw rhoi’r sgiliau a’r wybodaeth sydd eu hangen ar aelodau i gyflawni gwahanol swyddogaethau’r cynghorydd a’r aelod lleyg modern. Heb yr hyfforddiant a’r datblygiad priodol mae mwy o risg hefyd y ceir cwynion ac y bydd penderfyniadau’n cael eu herio’n llwyddiannus. Fel nodwyd yn adran 6 uchod, i raddau helaeth mae darpariaeth hyfforddiant i aelodau yn dibynnu ar allu staff y Cyngor i ddarparu hyfforddiant ar eu meysydd gwaith a’u harbenigedd.


## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

# Concise Guide to e-Learning Courses for Councillors

1) The site is accessed from this link: [https://learning.nhs.wales/](https://learning.nhs.wales/)

2) Choose 'Log in'




3) Enter your username which will be your normal sign on e.g. [redacted], all lower case. This will be the [redacted]. Your password will be [redacted].

Click the red login button at the top right of your screen.




4) From the 'Local Authorities command (see below) choose 'Denbighshire'.




5) On the following screen, choose Cymraeg or English for your language choice.





6) Choose 'Councillors'




7) Choose 'Mandatory Modules'





8) Choose the course you want from the list below.





9) Choose the 'Enrol me' box (as arrowed below).





10) Click the green icon next to the course name (as arrowed below).




11) Choose 'Enter'.





12) Choose 'Start Course'.





13) The course will now start and you progress through it by scrolling down the screens, answering any quiz questions and pressing ‘Continue’ or ‘Next’ etc., where prompted.

14) A certificate can be downloaded on completion of the course.




15) After downloading your certificate, you can exit the course by choosing the ‘Exit activity’ button:


Exit activity
Communications team
IT/Digital team
Download your certificate
Click the link to download your certificate.
PDF
Certificate - Social media awareness.pdf
5.4 MB

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 9 Mehefin 2023 |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Lisa Jones, Pennaeth Dros Dro - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |
| **Awdur yr adroddiad** | Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| **Teitl** | Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Bwriad yr adroddiad hwn yw hwyluso trafodaeth ac adborth ar y meysydd o fewn cylch gwaith y pwyllgor, ac i gadarnhau eitemau rhaglen ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. A yw'n briodol i'r pwyllgor adolygu ei raglen gwaith i'r dyfodol ym mhob cyfarfod. Gall yr eitemau canlynol fod yn briodol (nid yw'r rhestr hon yn un gyflawn):

- Hyfforddiant a datblygu aelodau
- Trefniadau cefnogi er mwyn i aelodau gyflawni eu rolau
- Cefnogaeth ar gyfer swyddogaeth Graffu y Cyngor
- Adolygu'r adnoddau sydd ar gael i aelodau (er enghraifft, llety a thechnoleg)
- Mentrau, deddfwriaeth ac ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar faterion democratiaeth leol, gan gynnwys amrywiaeth, cydraddoldeb a chyfranogi
- Tâl Aelodau

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth yn yr adroddiad hwn ac yn cadarnhau ei raglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

## 4. Manylion yr adroddiad

### Gweithgor Aelodau ar Sut y Cynhelir Cyfarfodydd

4.1 Roedd adroddiad ar y gweithgor hwn wedi'i gynnwys yn y rhaglen waith i'r dyfodol. Nid yw'r grŵp wedi'i ffurfio'n llawn eto o ran penodi aelodau, ac felly nid yw wedi dechrau ar ei waith.

4.2 Gellir rhoi diweddariad llafar o'r sefyllfa ddiweddaraf wrth ystyried yr adroddiad rhaglen waith hon.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Nid yw'r adroddiad yn cyfrannu'n uniongyrchol at y Cynllun Corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau o ran cost o ystyried y rhaglen gwaith i'r dyfodol a'r diweddariadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Amherthnasol

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes angen datganiad gan y Prif Swyddog Cyllid ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Ni nodwyd unrhyw risgiau penodol o ystyried yr adroddiad hwn. Mae adolygu'r rhaglen gwaith i'r dyfodol a gwybodaeth gysylltiedig yn nodwedd bwysig o swyddogaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cynllun Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

| Cyfarfod | | Eitem (disgrifiad / teitl) | Pwrpas yr adroddiad | Awdur | Dyddiad y Cyflwynwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| 29 Medi 2023 | 1 | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) | Cael gwybodaeth ar oblygiadau'r Ddeddf. | I'w gadarnhau | Medi 2022 |
| | 2 | Archif ar gyfer Gweddarllediadau | Adolygiad o'r trefniadau ar gyfer archifo gweddarllediadau'r Cyngor | Steve Price | Chwefror 2023 |
| | 3 | Cadarnhau Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd | Ystyried cymeradwyo Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd y Cyngor, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth. | Siân Owen / Jo Sutton | Ebrill 2023 |
| | 4 | ID Pleidleisiwr mewn etholiadau | Ystyried goblygiadau ID pleidleisiwr a newidiadau cysylltiedig ar gyfer cynnal etholiadau. | Steve Price | Mai 2023 |
| | 5 | Tâl Aelodau Cyfetholedig | Ystyried ymagwedd y Cyngor at dâl aelodau cyfetholedig. | Steve Price | Mawrth 2023 |
| | 6 | Trefniadau Craffu Rhanbarthol | Ystyried sut mae trefniadau Craffu awdurdod lleol yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus rhanbarthol. | Steve Price | Mawrth 2023 |
| | 7 | Mesurau i fynd i'r afael ag ymddygiad bygythiol yn erbyn aelodau | Ystyried cymeradwyo pecyn o wybodaeth a mesurau i gefnogi cynghorwyr sy'n profi ymddygiadau gelyniaethus, bygythiol, difenwol neu dreisgar oherwydd eu rolau fel aelodau etholedig. | Lisa Jones / Steve Price | Ebrill 2023 |
| | 8 | Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy | Trafod y darpariaethau deddfwriaethol ar gyfer etholiadau gan ddefnyddio'r darpariaethau pleidlais sengl drosglwyddadwy. | Steve Price | Mawrth 2023 |
| | 9 | (Yn amodol ar gynnydd): Gweithgor Aelodau ar Sut y Cynhelir Cyfarfodydd | Ystyried polisi'r Cyngor ar gyfer cynnal cyfarfodydd ar-lein, hybrid ac wyneb yn wyneb. | I'w gadarnhau | Chwefror 2023 |

Democratic Services fwp.doc
Updated SP – 25 May 2023

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag